


# Yma i helpu

Eich arweiniad i wasanaethau digartrefedd



# Neges gan y Tîm Atal Digartrefedd

Fe wyddon ni fod bod yn ddigartref neu dan risg o ddigartrefedd yn amser o bryder a straen.

Rydyn ni yma i wrando arnoch chi a gwneud ein gorau i'ch helpu a'ch cefnogi.

Darllenwch y llyfryn hwn i'ch helpu i ddeall y broses o weithio gyda ni.

Os oes ganddoch chi unrhyw bryderon neu gwestiynau, fe fydden ni'n falch o helpu.

## Enw eich Swyddog Atal Diagartrefedd ydy:



## Beth all y Tîm Atal Digartrefedd wneud i'm helpu i?

- Cafodd y ddeddf ar ddigartrefedd yng Nghymru ei newid ar Ebrill 27, 2015.

Os ydych mewn perygl o gael eich digartrefu, mae ganddoch chi'r hawl bellach i gael cymorth yn llawer cynharach, ac fe allwn ni gynnig cymorth mewn gwahanol ffyrdd nag o'r blaen. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu'ch helpu os ydych dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod.

- Er mwyn eich cynorthwyo, mae angen inni sicrhau eich bod yn 'gymwys'. Os ydych yn byw yn y DU, yn ddinesydd Prydeinig a heb dreulio amser yn ddiweddar yn byw mewn gwledydd eraill, fe fyddwch bron yn sicr yn gymwys. Gofynnwch i aelod o'r staff am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r prawf cymhwysedd.
- Tra'n gweithio gyda ni, fe wnawn eich hysbysu trwy lythyr am unrhyw benderfyniad a wnawn yn eich achos chi.



## Y cam cyntaf - Beth sydd angen i mi ei wneud?

**Yr asesiad ydy'r cam cyntaf ar y daith i bawb rydyn ni'n eu helpu. Mae angen inni ddeall eich sefyllfa er mwyn galluogi inni eich helpu.**

- I ddechrau, fe wnawn ni wrando arnoch chi a chanfod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnon ni am eich sefyllfa.
- Fe wnawn ni asesiad o'ch sefyllfa a gweithio gyda chi i adnabod pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn datrys eich problem cartrefu.
- Mae'n bosib y bydd gofyn ichi fynd i nôl unrhyw eitemau o waith papur. Er mwyn gallu eich helpu, bydd gofyn ichi fod yn agored a gonest gyda ni trwy roi gwybodaeth y gofynnir amdani. Fe fyddwn ni, yn ein tro, yn agored a gonest gyda chi, a'ch trin chi â pharch. Fe wnawn ni hefyd eich hysbysu sut mae'ch achos yn dod yn ei flaen.
- Os oes ganddoch chi unrhyw anghenion penodol rydych yn meddwl y dylen ni fod yn ymwybodol ohonyn nhw (er enghraifft, dyled, anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl neu unrhyw beth rydych yn ystyried ei fod yn bwysig), mae croeso ichi sôn amdany'n nhw wrth aelod o staff.



## Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i helpu atal imi fod yn ddigartref?

**Bydd y cam nesaf wedi'r asesiad yn dibynnu ar eich sefyllfa. Os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref, efallai mai'r ffordd orau i chi fyddai eich cynorthwyo i aros yn eich cartref. Fodd bynnag, chewch chi ddim eich gorfodi i aros os nad dyna'r opsiwn cywir.**

- Fe wnawn ni geisio eich atal rhag bod yn ddigartref trwy eich helpu i aros yn eich cartref eich hunan lle bo'n bosib. Os nad ydy hyn yn bosib, fe wnawn ni eich helpu i gael hyd i rywle arall i fyw sy'n addas i'ch anghenion.
- Fe wnawn ni weithio gyda chi i lunio Cynllun Tai a Chefnogaeth a fydd yn cynnwys yr holl gamau sydd angen eu cymryd i ddatrys eich problem cartrefu. Yna fe wnawn ni eich helpu i roi'r Cynllun ar waith.
- Mae'n bosib na allwn nodi'r holl gamau ar gyfer y Cynllun Tai a Chefnogaeth ar unwaith. Os na allwn ni lunio'r Cynllun Tai a Chefnogaeth yn syth, rydyn ni'n addo i gysylltu â chi o fewn 10 niwrnod i'ch apwyntiad gyda ni.

- Bydd yr union gamau yn y Cynllun Tai a Chefnogaeth yn dibynnu ar eich sefyllfa. Fe all y bydd eich cynllun yn cynnwys camau megis trafod â'ch landlord i geisio atebion i unrhyw broblemau; cyfryngu er mwyn datrys dadleuon teuluol; helpu gyda chostau dechrau ar gyfer tenantiaeth newydd; neu atgyfeirio at wasanaethau cymorth.
- Os oes angen rhywle arall arnoch i fyw, mae'n bosib y gwnawn ni edrych p'un ai bod llety preifat i'w rentu sy'n addas ac yn fforddiadwy ichi.
- Fe wnawn ni'n siŵr bod eich llety yn debygol o fod ar gael ichi am o leiaf chwe mis.



## Beth os ydych chi'n ddiogartref ar hyn o bryd?

**Mae'r cam nesaf wedi'r asesiad yn dibynnu ar eich sefyllfa. Os cytunwn ni eich bod yn ddiogartref, fe wnawn ni weithio gyda chi i gael hyd i rywle addas ichi fyw sy'n fforddiadwy ichi.**

- Fe wnawn ni eich helpu i gael hyd i rywle arall i fyw sy'n addas i'ch anghenion. I wneud hynny, fe wnawn ni weithio gyda chi i lunio Cynllun Tai a Chefnogaeth. Fel rhan o'r Cynllun, mae'n bosib y gwnawn ni gynnwys edrych ar lety preifat wedi'i rentu sy'n addas a fforddiadwy. Fe wnawn ni'n siŵr bod y llety'n debygol o fod ar gael ichi am o leiaf chwe mis.
- Os oes angen rhywle arnoch i aros ar unwaith, fe fydd angen inni ystyried p'un ai eich bod yn gymwys i dderbyn llety dros dro. Fe wnawn ni ddarparu llety dros dro ichi os ydyn ni'n meddwl eich bod mewn 'grŵp angen blaenoriaethol'.
- Grwpiau penodol o bobl ydy 'grwpiau angen blaenoriaethol', sydd, yn ôl y gyfraith, ag angen neilltuol am gymorth. Gofynnwch i aelod staff os hoffech wybod mwy ynglŷn â'r grwpiau hyn.

- Noder nad ydy'r rhai sy'n gadael carchar bellach yn grŵp angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, efallai y caiff y rhai sy'n gadael carchar eu hystyried fel rhai ag angen blaenoriaethol dan gategori angen blaenoriaethol arall.
- Efallai y gwnawn ni eich atgyfeirio at gyngor arall i'ch helpu os oes ganddoch chi gyswllt yn yr ardal honno a dim un yn Sir Ddinbych. Er mwyn inni allu gwneud hynny, mae gofyn ichi ateb y meini prawf atgyfeirio. Gofynnwch i aelod staff os oes ganddoch chi gwestiynau ynglŷn â hyn.



## Beth os nad ydy'r Cynllun Tai a Chefnogaeth yn datrys fy mhroblem cartrefu?

Os nad ydyn ni wedi llwyddo i ganfod cartref wedi 56 diwrnod, mae'n bosib bod ganddon ni ddyletswydd i gynnig llety dros dro ichi. Mae ein gallu i wneud hyn yn dibynnu ar eich sefyllfa.

- Os dewch yn ddigartref, mae'r gyfraith yn datgan bod ganddon ni hyd at 56 diwrnod i weithio gyda chi i helpu datrys eich problem cartrefu. Os, ar y cyd, nad ydy'n ni'n llwyddiannus yn hyn o beth, fe wnawn ni ystyried beth arall y gellir ei wneud.
- Mae'n bosib bod ganddoch chi'r hawl i lety os ydych yn un o 'grŵp angen blaenoriaethol'. Gall hyn fod yn y sector preifat wedi'i rentu neu dai cymdeithasol. Fe wnawn ni sicrhau y cewch aros yn y llety am o leiaf chwe mis.

**Dydy pobl mewn grwpiau angen blaenoriaethol ddim yn derbyn tai cymdeithasol yn awtomatig wedi Ebrill 27, 2015.**

**Cofiwch fod galw mawr iawn am dai cymdeithasol ar hyn o bryd.**

## Beth os ydych chi'n dymuno cael ail farn?

- Os nad ydych yn cytuno gyda'r hyn rydyn ni wedi'i wneud, mae ganddoch chi'r hawl i ofyn am adolygiad o'r camau a gymerwyd ganddon ni. Cyn ichi wneud hynny, mae'n bosib yr hoffech siarad â Shelter Cymru neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a fydd yn rhoi cyngor annibynnol, rhad ac am ddim ichi ar y camau gorau i'w cymryd.


**Shelter Cymru - 0345 075 5005**  
**Canolfan Cyngor ar Bopeth - 03444 77 20 20**

- Os ydych yn gwrthod cynnig o lety ganddon ni, fe fydd hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dod â'n dyletswydd i'ch helpu i ben. Cymerwch gyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwrthod unrhyw gynigion o lety.
- Fe allwn ni hefyd ddod â'n dyletswydd i'ch helpu i ben os nad ydych, yn ein tyb ni, wedi bod yn cydweithio â ni, er enghraifft, trwy beidio â gwneud unrhyw ymdrech i gwblhau tasg y cytunoch chi ei chyflawni.

**Rydyn ni bob amser â diddordeb i glywed sut y gallwn wella ein gwasanaethau. Gofynnwch am gael siarad â rheolwr a fydd yn hapus i wrando ar eich adborth.**

# Ein taith gyda'n gilydd

Dyma fap syml o sut fase eich taith o weithio gyda chyngor i gael cartref diogel yn edrych. Gall y cyngor ddod â'i dyletswydd i'ch helpu i ben o dan rai amgylchiadau penodol.



Gofynnwch i aelod o'r staff am fwy o wybodaeth



